Cyfranogiad Tenantiaid

Beth yw Cyfranogiad Tenantiaid?

Pwrpas Cyfranogiad Tenantiaid yw annog tenantiaid i ddweud eu dweud ar sut y mae eu cartrefi yn cael eu rheoli. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymrwymedig i gynnwys tenantiaid yn y ffordd mae'n rhedeg ei wasanaeth tai.

Beth mae cymryd rhan yn ei gyflawni?

Mae gan denantiaid rôl bwysig mewn tai i sicrhau fod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i gwrdd ag anghenion tenantiaid. Mae Cyfranogiad Tenantiaid yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau:

- Darpariaeth gwasanaeth Tai ymatebol ac atebol
- Bod penderfyniadau o ansawdd yn cael eu gwneud
- Bod tenantiaid yn cael eu rhoi wrth galon Gwasanaethau Tai

Heb farnau a phrofiadau tenantiaid am y gwasanaeth, byddai'n anodd datblygu a gwella'r gwasanaeth tai i gwrdd ag anghenion a dyheadau tenantiaid.

Sut allwch chi gymryd rhan?

Mae nifer o ffyrdd i gymryd rhan. Mae rhai enghreifftiau fel y ganlyn:

- **Grwpiau Gorchwyl**
  Tenantiaid a Swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau mewn ardaloedd penodol e.e atgyweiriadau a gwelliannau.

- **Grŵp Tasg Cartrefi Caerffili**
  Cynrychiolwyr tenantiaid etholedig yn gweithio gyda chynghorwyr i fonitro'r gwasanaeth tai.

- Ymuno â **Chymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr** – Mae'r Cyngor yn cefnogi a chyllido Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr cydnabyddedig. Mae hwn yn galluogi'r grŵp i fod yn annibynnol ac mae'n darparu strwythur ffurfiol i adran tai'r cyngor ymgynghori ar faterion tai.

- **Grwpiau Ffocws Un-tro** – Mae grwpiau ffocws yn cael eu cynnal er mwyn trafod, er enghraifft, agwedd benodol ar y gwasanaeth neu newidiadau arfaethedig. Gall grwpiau o 10-15 tenant gael eu recriwtio ar hap er mwyn trafod eu barnau am wasanaeth neu fater penodol.

- **Crwydradau Ystadau**
  Ymunwch â chrwydrad yn eich ardal leol.

- **Golygyddion Cadair Freichiau**
  Rhowch eich barn ar ein cyhoeddiadau / gwefannau.

Os hoffech gael rhagor o fanylion cysylltwch â'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r Gymuned.